**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 20 Hydref 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | D W Helliwell |
| T J Hennegan | P R Hood-Williams | P K Jones |
| J W Jones | M B Lewis | S Pritchard |
| L V Walton | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Cockings | Prif Archwiliwr |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorydd A H Stevens, P O'Connor a Jason Garcia

---

**1 Ethol Cadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2020-2021.**

**Penderfynwyd** ethol Paula O'Connor yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2020-2021.

**2 Ethol is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2020-2021.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd P R Hood-Williams yn Is-Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2020-2021.

**(Y Cynghorydd P R Hood-Williams fu'n llywyddu)**

**3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Y Cynghorydd P M Black – Cofnod Rhif 142 - Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2020/21, Adroddiad Monitro ar gyfer y Cyfnod o 1 Gorffennaf 2020 i 30 Medi 2020 - Llywodraethwr Ysgol Gyfun Pentrehafod - personol.

Y Cynghorydd T M White – Cofnod Rhif 142 - Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2020/21, Adroddiad Monitro ar gyfer y Cyfnod o 1 Gorffennaf 2020 i 30 Medi 2020 - Llywodraethwr Ysgol Gyfun Pentrehafod ac aelod o'r Awdurdod Iechyd Porthladdoedd - personol.

**4 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio fel cofnod cywir.

**5 Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2020/21 Adroddiad Monitro ar gyfer y Cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2020 a 30 Medi 2020. (Simon Cockings)**

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr, Simon Cockings, adroddiad a oedd yn dangos yr archwiliadau terfynol ac unrhyw waith arall a wnaed gan yr Is-adran Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod o 1 Gorffennaf 2020 i 30 Medi 2020.

Cwblhawyd cyfanswm o 14 o archwiliadau yn ystod y chwarter. Rhestrwyd yr archwiliadau a gwblhawyd yn Atodiad 1, a oedd hefyd yn dangos lefel y sicrwydd a roddwyd ar ddiwedd yr archwiliad a nifer yr argymhellion a wnaed ac y cytunwyd arnynt. Roedd Atodiad 2 yn darparu crynodeb o'r cwmpas o'r adolygiadau terfynol yn ystod y cyfnod.

Rhoddwyd dadansoddiad o lefelau sicrwydd yr archwiliadau a gwblhawyd a gwnaed cyfanswm o 67 o argymhellion yn yr archwiliad, a chytunodd y rheolwyr i weithredu'r holl argymhellion. Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau cymedrol yn ystod y chwarter.

Eglurwyd bod mynediad at holl wefannau'r cyngor wedi'i gyfyngu oherwydd y pandemig COVID-19 parhaus. Cafodd hyn effaith sylweddol ar allu'r Tîm Archwilio i gwblhau profion ar y safle a bydd yn parhau i wneud hynny nes i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Eglurwyd hefyd nad oedd y Tîm yn gallu cynnal rhai ymweliadau dilynol oherwydd nad oedd staff yn gallu cael mynediad i rhai safleoedd, e.e. ysgolion.

Darparwyd manylion am waith dilynol a gwblhawyd rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2020, gan gynnwys dau adroddiad archwilio cymedrol blaenorol ar Docynnau Consesiynol 2019/20 a Chynnal a Chadw'r Cerbydlu 2019/20. Roedd yr ail ddarn o waith dilynol ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd 2019/20 wedi cychwyn ac adroddir am hwnnw mewn cyfarfod yn y dyfodol. Trefnwyd yr ymweliadau dilynol ag Ysgol Gynradd Cwm Glas ac Ysgol Arbennig Pen y Bryn ar gyfer chwarter 3.

Rhoddodd y pwyllgor adborth cadarnhaol ynghylch y cynnydd a wnaed a llongyfarchodd y Prif Archwiliwr ar waith ei dîm mewn amgylchiadau anodd iawn. Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Y defnydd o ddogfennau electronig a oedd yn sicrhau bod gwaith y Tîm Archwilio yn gallu parhau;
- Problemau parhaus gyda chaffael mewn ysgolion a'r bwriad i ddarparu hyfforddiant ychwanegol i staff mewn ysgolion;

- Yr angen i gyflwyno polisi caffael ar gyfer ysgolion a fyddai'n darparu canllawiau clir y byddent yn eu dilyn.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Prif Archwilydd a'i staff am y gwaith a'r cynnydd a wnaed.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 6 Adroddiad Dilynol Argymhelliad yr Archwiliad Mewnol - Chwarter 2 2020/21. (Simon Cockings)

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr adroddiad a oedd yn dangos i'r pwyllgor statws yr argymhellion a wnaed yn yr archwiliadau hynny lle bu'n rhaid gwneud gwaith dilynol yn ystod Chwarter 2 2020/21, a oedd yn caniatáu i'r Pwyllgor Archwilio fonitro'r broses o weithredu'r argymhellion a wnaed gan Archwilio Mewnol.

Darparodd Atodiad 1 grynodeb o'r argymhellion a dderbyniwyd ac a roddwyd ar waith a rhoddodd Atodiad 2 fanylion yr argymhellion na roddwyd ar waith.

Tynnwyd sylw at y ffaith y rhoddwyd 141 o'r 148 o argymhellion a wnaed ar waith. Roedd y 7 na roddwyd ar waith yn rhai risg isel/canolig ac ni rhoddwyd y rhan fwyaf ohonynt ar waith oherwydd COVID-19 yn bennaf.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 7 Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 1af 2020/21. (Er Gwybodaeth) (Ben Smith)

Cyflwynodd Ben Smith, Swyddog Adran 151, adroddiad Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - y chwarter 1af ‘er gwybodaeth’.

Cyfeiriodd at y sefyllfa o ran grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, trefniadau trosglwyddo arian, gan roi sicrwydd i'r pwyllgor ar lefelau micro a macro.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r Swyddog Adran 151, a ymatebodd yn briodol. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y canlynol: -

- Diffyg refeniw, yn enwedig yn Nhreth y Cyngor a gesglir, sut roedd y ffigurau yn yr adroddiad yn amcangyfrifon yn unig a'r colledion refeniw a ragwelir yn Abertawe/ar draws Cymru;
- Rhagolwg o’r sefyllfa alldro refeniw yn seiliedig ar wariant yn y chwarter 1af, incwm a dderbynnir/y disgwylir iddo wrthbwyso'r colledion a ragwelir, yr ansicrwydd parhaus a'r disgwyliad parhaus i osod cyllideb cyn 11 Mawrth 2021;
- Cynnydd mewn benthyca a pham ei bod yn rhatach o hyd i fenthyca o gronfeydd wrth gefn;
- Y gweithdrefnau monitro cyllideb cyfredol, a fyddai modd cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghyllideb 2020-2021 o ystyried y sefyllfa bresennol a'r rhwymedigaeth a roddir ar swyddogion i gyflawni cyllideb gytbwys, gan sicrhau yr aed i'r afael â gorwariant.

**8 Alldro Refeniw ac Olrhain Arbedion 2019/20. (Er Gwybodaeth) (Ben Smith)**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 yr adroddiad Refeniw ac Olrhain Arbedion 2019/20 'er gwybodaeth'.

Cyfeiriwyd yn benodol at y tanwariant sylweddol a gyflawnwyd yn ystod 2019-2020.

**9 Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2019/20. (Er Gwybodaeth) (Ben Smith)**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2019/20 'er gwybodaeth'.

Rhoddwyd cadarnhad y cydymffurfiwyd â'r holl faterion yn ystod y flwyddyn.
Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- rhoddwyd esboniad ynghylch buddion y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn erbyn benthyciadau sydd ar gael yn y farchnad agored;
- Cyfraddau llog a chynllunio ariannol Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus tan 2025-2026;
- rhoddwyd esboniad ynghylch buddsoddiadau portffolio gwrthbarti ar 31 Mawrth 2020 a sicrwydd buddsoddiadau rhwng awdurdodau lleol.

**10 Archwilio Cymru - Datganiad i'r Wasg ar Gynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol. (Er Gwybodaeth)**

Darparodd y Swyddog Adran 151 ddatganiad i'r wasg Swyddfa Archwilio Cymru ar Gynaladwyedd Ariannol Llywodraeth Leol 'er gwybodaeth'.

**11 Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio. (Er Gwybodaeth) (Jeremy Parkhouse) (Er Gwybodaeth)**

Darparwyd Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio 'er gwybodaeth'.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, dywedodd y Swyddog Adran 151 y byddai adroddiad ar risg yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf a drefnir ym mis Tachwedd 2020 a fyddai'n rhoi diweddariad sylweddol i'r pwyllgor.

**12 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio. (Er Gwybodaeth)**

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio 'er gwybodaeth'.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.53 pm

**Cadeirydd**